

CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

Cofnodion cyfarfod 9 Ebrill 2019 a gynhaliwyd yn y Neuadd Goffa, Y Felinheli am 7:00 yn yr hwyr.		
PRESENNOL		
Daniel Williams	Mei Gwilym	
Casi Roberts	Nerys John	
Eifion Williams	Elliw Williams	
Einir Coates		
Wynne Barton - Swyddog Ariannol	Gareth Griffiths - Cynghorydd Sir	
1.0	GEIRIAU AGORIADOL Y CADEIRYDD AC YMDDIHEURIADAU	
1.1	Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i Gyfarfod mis Ebrill y Cyngor.	
1.2	Derbyniodd y Cadeirydd ymddiheuriadau oddi wrth, y Cynghorydd Gruff John, Cynghorydd Aled Emyr, Cynghorydd Iestyn Williams a Chynghorydd Iwan Huws.	
2.0	ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR	
	<p>Gwahoddwyd Y Cynghorydd Sir i gyflwyno'i adroddiad:</p> <p>Defib Lan Môr ar y gweill i gael ei osod. Dywedodd y Clerc bod gweithiwr Owen & Palmer wedi dweud wrthi fod y gost yn llai na'r dyfynbris oherwydd dim ond un dydd sydd ei angen i'w osod ac oedd y pris yn cynnwys pris dau ddyn.</p> <p>Cyfeiriodd ei fod wedi derbyn deiseb ynglŷn â pharcio ger yr ysgol sydd bellach wedi ei anfon ymlaen at y Cyngor Sir. Mae ganddo gyfarfod yn yr ysgol nos Iau a bydd yn cyfeirio ar hyn yno. Mae mater o faw cwn hefyd yn broblem o gwmpas yr ysgol.</p> <p>Os yw pobl yn cael trafferthion gyda'u ceisiadau am fathodyn glas ar gyfer yr anabl - mae'r drefn wedi newer, dim ond gweinyddu'r sustem y ceisiadau mae'r Cyngor Sir bellach.</p> <p>Mae newyddion wedi ei gyhoeddi bod safle Ferodo, Tŷ Coch a Plas Bereton am ei ddatblygu fel pentref gwyliau. Mae safle Ferodo i gyd yng Nghymuned y Felinheli. Bydd yn mynychu cyfarfod yn y Galeri ynglŷn â'r datblygiad.</p> <p>Mae parcio yn y Marina yn parhau, mae dwy ochr y ddadl eisiau rhywbeth gwahanol. Bydd Swyddog Traffig y Cyngor yn cysylltu er mwyn trefnu cyfarfod cyhoeddus.</p> <p>Mae gwaharddiad parcio arfaethedig ar Stryd Bangor. Trafodwyd y mater hwn a phenderfynwyd nad oedd gwrthwynebiad. Y Clerc i Anfon ymateb i'r Cyngor Sir.</p>	CLERC
3.0	DATGAN DIDDORDEB	
	Dim	
4.0	CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R ADRODDIAD ARIANNOL BLAENOROL	
4.1	Cyflwynodd y Swyddog Ariannol adroddiad ariannol am y mis blaenorol ynghyd a manylion gwariant y mis Mawrth. Derbyniwyd hwy.	ARIANNOL
4.2	Derbyniwyd llythyrau o ddiolch am gymorth ariannol gan	

CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

	Howard Huws ar ran Y Goriad a Clwb y Felin.	
4.3	Cyflwynodd y Swyddog Ariannol er gwybodaeth adroddiad blynyddol y Cyngor. Os bydd cwestiynau yn codi yna bydd yn barod i'w hateb. Bydd yr adroddiad yn cael ei gyflwyno'n ffurfiol yn y cyfarfod blynyddol mis nesaf.	CLERC
4.4	Bydd angen i archwilwyr y Cyngor archwilio'r cyfrifon cyn eu bod yn cael eu cyflwyno i'r archwilwyr Mewnol. Gan fod y Cynghorydd Sarah Riley ar absenoldeb mamolaeth bydd y Cynghorydd Elliw Williams yn derbyn cyflwyniad i'r cyfrifol gan y Swyddog Ariannol er mwyn iddi allu eu harchwilio. Bydd y Cynghorydd Iestyn Harris hefyd yn eu harchwilio.	
4.5	Bydd BDO yn archwilio'r cyfrifon am y tro olaf eleni.	
4.6	Dywedodd y Swyddog Ariannol bod cost codi gwastraff y fynwent wedi cynyddu 13% am fin o faint 660L, felly cost eleni fydd £478. Bydd y Cynghorydd Daniel Williams yn monitro defnydd o'r bin dros y cyfnod lle bydd dim glanhawr/aig.	
4.7	Bydd y mater o gydnabyddiaeth ariannol i'r cynghorwyr yn cael ei ystyried yng nghyfarfod mis Mai pob blwyddyn wedi'r cyfarfod blynyddol.	CLERC
4.8	Pannel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol – ni wnaethpwyd daliad eleni i'r Cynghorwyr wedi iddynt eithrio o'r taliad.	
5.0	CADARNHAU COFNODION MIS BLAENOROL	
5.1	Cadarnhawyd cofnodion mis Mawrth fel rhai cywir.	
6.0	CEISIADAU CYNLLUNIO	
6.1	C19/0219/20/LL – Newid defnydd tir ar gyfer creu man storio deunyddiau coedwigaeth – Coed wrth ochr A487, Y Felinheli, LL 56 4QN - DIM GWRTHWYNEBIAD	CLERC -
6.2	C19/0285/20/LL – Codi estyniad deulawr a chreu ystafell atig – Hilcrest, 14 Lon Llwyn, Y Felinheli LL56 4UJ - DIM GWRTHWYNEBIAD	CLERC -
6.3	C19/0313/20/LL – Codi atyniad newydd ar sail fframiau a thirlunio – Y Gelli Gyffwrdd, Y Felinheli LL56 4QN – DIM GWRTHWYNEBIAD	CLERC -
	C19/0312/20/LL - Codi ty menter wledig a gwaith cysylltiedig - Fferm Plas Llanfair, ffordd Caernarfon, Y Felinheli LL55 1TT - DIM GWRTHWYNEBIAD	CLERC -
7.0	PRIFFYRDD	
7.1	Mater yn codi - nid oedd gwybodaeth wedi ei dderbyn os oedd Bin Halen wedi ei osod yn Ger y Nant. Y Clerc i wneud ymholiadau gyda Chyngor Gwynedd i gael gwybod y wybodaeth ddiweddaraf ar y mater.	CLERC-
7.2	Y Clerc i symud ymlaen ac anfon at yr Heddlu ac Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru ar y broblem traffig sydd yn gallu codi o fewn y pentref pan fydd y ffordd osgoi yn cael ei chau. I ofyn a oes modd ail gyfeirio'r traffig drwy Ffordd Bethel.	CLERC
7.3	Mae gwair ymylon y ffyrdd o fewn y pentref angen eu toriad cyntaf. Y Clerc i anfon at Gyngor Gwynedd	CLERC
	Nid yw adroddiad wedi ei dderbyn oddi wrth Adran Traffig Cyngor Gwynedd ynghlŷn â'r astudiaeth o draffig sydd a'r	

CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

	Ffordd Bangor a'r pryder sydd yn bodoli oherwydd gwelededd. Y Clerc i anfon eto at y Cyngor.	
8.0	ADRODDIADAU LLWYBRAU CYHOEDDUS, CYSGODFANAU A MEINCIAU	
8.1	Gwaith ar y gysgodfan gwaelod Tafarngrisiau wedi ei gwblhau. Angen cael sylw ar y gwaith. Adroddiad yw cael ei wneud ar gyfer y Wefan, y papur Caernarfon & Denbigh .	NJ/CR/EIw
8.2	Gwaelodion postia cysgodfan Aberpwl wedi eu harchebu .	DW
8.3	Y Clerc i anfon at Swyddog Cynnal Llwybrau i ddweud bod giât mochyn Llwybr at Fethel wedi ei rwystro gan giât y fferm sydd wedi ei dynnu i ffwrdd.	CLERC
8.4	Golau Solar wedi ei osod ar Arwydd Safle Bws Cerrig yr Afon, nid yw'r golau yn llachar iawn ac mae Cyngor Gwynedd yn caniatáu'r arbrawf. Y Cyn Gadeirydd Ken Brown wedi datgan ei ddiolch.	
8.6	Golau Solar safle bws Cerrig yr Afon (ochr arall i'r uchod) ddim yn gweithio - Y Clerc wedi anfon at Gyngor Gwynedd sydd yn archwilio'r broblem a byddant yn adrodd yn ôl mae o law.	CLERC
8.7	Mae spring catch giat Cerrig yr Afon wedi diflannu - Y Clerc i anfon at Gyngor Gwynedd.	CLERC
8.8	Meinciau Cyngor Gwynedd ar Lan Môr angen sylw - Y Swyddog Alun Wyn Jones wedi nodi'r gwaith.	
9.0	ADRODDIAD IS-BWYLLGOR MAES, PARCIO, LON LAS A SAFLE MORIAH	
9.1	Mae'r wal sydd wedi dymchwel yn hysbys gan y Cyngor Sir bellach, Gerallt Jones am ddod a'r mater i sylw Swyddog y Lon Las. Y Clerc i anfon at Gerallt Jones i ofyn pwy yw'r swyddog newydd.	CLERC
9.2	Nid yw'r lafant yn ffynnu ar safle'r don, felly penderfynwyd byddai cyflwyno Grug yno yn well. Cynghorydd Nerys John i sicrhau cael y grug.	NJ
10.0	ADRODDIAD IS-BWYLLGOR Y FYNWENT	
10.1	Angen toriad cyn y Sul y Blodau - Y Clerc i gysylltu â'r contractwr.	CLERC
10.2	Nid yw prisiau claddedigaeth y Cyngor wedi eu newid ers 2015. Penderfynwyd gwneud arolwg o brisiau claddedigaethau mynwentydd eraill - Y Clerc i symud ymlaen a'r hyn.	CLERC
11.0	PROSIECTAU	
11.1	Adroddwyd bod Cynghorydd Nerys John a Cynghorydd Casi Roberts wedi cael ymweliad safle gydag Alun Wyn Jones ar Gae Chwarae. Cafwyd cadarnhad beth mae'r Cyngor eisiau gan y Cyngor Cymuned. Cynlluniau i'w hanfon at y Cyngor ar gyfer cael cytundeb. Mae angen £12K ychwanegol ar gyfer gosod offer sydd yn cynnwys monkey ars.	NJ
11.2	Roedd Codi Sbwriel y Sul diwethaf yn llwyddiannus iawn. Casglwyd 36 bag gan 16 o dimau oedd yn cynnwys oedolion a phlant. Bydd y codi swbriel et oar y 12fed o Fai 2019. Mae angen offer newydd o leiaf 10 o bob dim. Mae Cyngor Gwynedd yn gallu cyflwyno'r rhain.	NJ
12.0	ADRODDIAD COFEB Y CLOC	

CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

12.1	Bydd keysafe yn cael ei osod ar y safle a bydd hyn yn caniatáu personau sydd yn ei wasanaethu cael mynediad yn ddi ffwdan.	
13.0	ADRODDIAD Y NEUADD	
13.1	Mae golau tu allan y neuadd dal heb ei gwblhau - mae yn rhy lachar ar hyn o bryd. Gwaith wedi ei archebu oddi wrth Owen & Palmer.	
13.2	Bydd Peter Wray y Pensaer yn ymweld â'r neuadd dydd Gwener i barhau a'i adroddiad o'r gwaith hyd yma a beth sydd angen ei flaenoriaethu. Mae Ymweliad hefyd gan C & A ar gyfer adroddiad Asbestos.	
13.3	Ffurflenni ynglŷn â thelerau ac amodau angen eu gwirio gan y Cadeirydd cyn eu bod yn cael eu gosod ar y wefan.	DW
13.4	Ar gyfer archebu CCTV mae cash account wedi ei agor ac yna gallwn gael proforma invoice ar gyfer yr offer.	DW
13.5	Cowells wedi eu gosod ar bedwar lleoliad mae un 6 modfedd wedi ei archebu.	DW
13.6	Ynglŷn â chael cytundeb ar ynni'r neuadd roedd rhaid anfon manylion ymlaen - mae hyn wedi ei wneud gan y Swyddog ariannol. Disgwyl ymateb.	Swyddog Ariannol
13.7	Dafydd Lowe wedi ymddiswyddo, mae dau ymholiad wedi ei dderbyn.	CLERC
13.8	Mae key safe wedi ei osod ar y neuadd. Os bydd yn cael ei ddefnyddio yna bydd trefniant mewn llaw i newid y côd. Mae box hefyd wedi ei osod ger panel y larwm tan. Yn hwn mae goriadau y larwm tân ar gadwyn sydd yn caniatáu i bobl ei ddefnyddio yn ôl y gofyn. Mae personau cyfrifol y guides wedi derbyn hyfforddiant mewn distewi'r sustem os bydd yn canu.	DW
13.9	Mae llechen wedi llithro oddi ar y to. Mae Peter Wray yn datgan mae'r hoelion sydd yn methu yn fwy na bod angen to newydd, mewn amser bydd angen ail osod y llechi gyda hoelion newydd.	
13.10	Mae angen cwpwrdd main 300mm ar gyfer defnyddiau glanhau yn y gegin. Y Clerc yn datgan eu bod gyda chwprdd o'r maint byddai'r neuadd yn ei gael.	CLERC
13.11	Y Clerc a'r Swyddog Ariannol i gysylltu â Brocer ynni i edrych ar gael contract ynni i'r Neuadd.	CLERC/Swyddog Ariannol
14.0	TOILEDAU CYHOEDDUS	
	Gweler eitem 2.0.	
15.0	GWYDNWCH CYMUNEDOL	
	Dim	
16.0	GWEFAN	
16.1	Y Clerc i ddiweddarau'r dogfennau dwyieithog ar y safle.	CLERC
17.0	MATERION AMRYWIOL	
17.1	Mae'r Ffrindiau'r ysgol yn awyddus o dderbyn cefnogaeth y Cyngor Cymuned ar y datblygiadau i wella adnoddau i'r plant. Y Clerc i anfon llythyr o gefnogaeth.	CLERC
	Daeth y cyfarfod i ben oddeutu 21:15	
Llofnod:		Dyddiad: